# Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL




**Awduron**

**Dr Linda J Thomson a Dr Helen J Chatterjee**



# Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL

## Cynnwys

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| 3 | Cyflwyniad |
| 4-6 | Gwybodaeth bellach |
| 7 | Holiadur Llesiant Cyffredinol – Fersiwn fer 6 eitem (dalen A4) |
| 8-9 | Holiadur Llesiant Cyffredinol – Fersiwn lawn 12 eitem (2 x dalen A4) |
| 10 | Ambarél Llesiant Cadarnhaol – Cyffredinol (dalen A4) |
| 11 | Ambarél Llesiant Negyddol – Cyffredinol (dalen A4) |
| 12 | Ambarél Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Hŷn (dalen A4) |
| 13 | Ambarél Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Iau (dalen A4) |
| 14 | Meddyliau a Sylwadau (dalen A4) |
| 15-16 | Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Cyffredinol (2 i'w torri allan, y blaen a'r cefn) |
| 17-18 | Ambarelau Llesiant Negyddol – Cyffredinol (2 i'w torri allan, y blaen a'r cefn) |
| 19-20 | Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Hŷn (2 i'w torri allan, y blaen a'r cefn) |
| 21-22 | Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Iau (2 i'w torri allan, y blaen a'r cefn) |
| 23-25 | Beth y dylid ei wneud â'r data |
| 26 | Sut y datblygwyd y Pecyn Cymorth |
| 27 | Cefndir yr ymchwil |
| 27 | Cyfeiriadau |
| 28 | Diolchiadau |
| 28 | Manylion cyswllt |



# Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL
# Cyflwyniad

## Beth yw Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL?

Cyfres o raddfeydd mesur yw Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL, a ddefnyddir i asesu lefelau llesiant sy’n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau amgueddfeydd ac orielau, ac mae wedi’i dreialu ledled y DU. Bwriad y Pecyn Cymorth yw helpu pobl sy’n ymwneud â chynnal prosiectau mewnol neu brosiectau allgymorth amgueddfeydd i werthuso effaith y gwaith hwnnw ar lesiant seicolegol eu cynulleidfaoedd. Mae’r Pecyn Cymorth yn hyblyg o ran y modd y gellir ei ddefnyddio, ac mae’n hybu dull gweithredu sy’n galluogi pobl i ddewis yr elfennau a ddymunir o blith ystod eang o wahanol bosibiliadau. Gellir ei ddefnyddio i werthuso effaith gweithgaredd a gynhelir unwaith yn unig neu effaith rhaglen o ddigwyddiadau. Cafodd y Pecyn Cymorth ei lunio gan ymchwilwyr ym maes Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL) a chafodd ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau.

## Beth y mae’r Pecyn Cymorth yn ei fesur?

Mae’r Pecyn Cymorth yn mesur llesiant seicolegol fel rhywbeth sy’n dangos cyflwr meddyliol yr unigolyn. Er bod agweddau eraill yn perthyn i lesiant, megis llesiant corfforol a chymdeithasol, mae’r Pecyn Cymorth yn canolbwyntio ar lefelau newidiadau mewn hwyl ac emosiwn, a nodir gan yr unigolyn ei hun, gan mai’r agweddau hynny ar lesiant sydd fwyaf tebygol o newid o ganlyniad i ymyriad byr megis cymryd rhan mewn gweithgaredd amgueddfa neu oriel.

## Beth sydd yn y Pecyn Cymorth?

Mae’r Pecyn Cymorth yn cynnwys dau Holiadur Llesiant Cyffredinol (fersiwn fer a fersiwn lawn), pedwar Ambarél Mesurau Llesiant (Cadarnhaol, Negyddol, Oedolion Hŷn ac Oedolion Iau) gyda chyfarwyddiadau ar yr un dudalen, a dalen ar wahân ar gyfer sylwadau. Mae pob un o’r mesurau wedi’u hargraffu ar un ochr i ddalennau A4 neu wedi’u lleihau i faint A5, ac maent wedi’u hargraffu mewn lliw llawn neu mewn inc du. Mae gwaith celf ychwanegol wedi’i ddarparu ar gyfer fersiynau 6 ymyl o’r Ambarelau Mesurau i’w torri allan. Bydd yr ambarelau hynny’n cael eu hargraffu ar ddwy ochr i gard tenau – dau ambarél ar bob dalen A4 – gyda’r ambarél mesurau ar un ochr a chyfarwyddiadau a lle i nodi sylwadau ar yr ochr arall.







# Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL

## Gwybodaeth bellach

| Ddim o gwbl 1 | Ddim yn aml iawn 2 | Weithiau 3 | Yn aml iawn 4 | Drwy'r amser 5 |
|---|---|---|---|---|

| Ddim o gwbl 1 | Ddim yn aml iawn 2 | Weithiau 3 | Yn aml iawn 4 | Drwy'r amser 5 |
|---|---|---|---|---|

## *Yr Holiadur Llesiant Cyffredinol*

Ceir dwy fersiwn o'r holiadur hwn – fersiwn fer 6 eitem (un dudalen o hyd) a fersiwn lawn 12 eitem (2 dudalen o hyd). Mae pob datganiad wedi'i ysgrifennu yn yr amser gorffennol ac yn cyfeirio at agwedd ar emosiwn neu ansawdd bywyd a brofwyd gan gyfranogwr wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd, e.e. 'Roeddwn yn teimlo'n hapus'. Rhoddir sgôr allan o bump ar gyfer pob datganiad, ar sail y graddau y mae'r unigolyn yn cytuno ag ef (1 = Ddim o gwbl; 2 = Ddim yn aml iawn; 3 = Weithiau; 4 = Yn aml iawn; 5 = Drwy'r amser).


Yn dibynnu ar y sefyllfa, gellir rhoi'r holiaduron i gyfranogwyr eu cwblhau ar eu pen eu hunain ar ôl gweithgaredd, neu gall hwylusydd ddarllen y datganiadau allan. Oherwydd bod chwe datganiad cyntaf y fersiwn lawn yr un fath â phob un o chwe datganiad y fersiwn fer, gall cyfranogwyr sydd wedi cwblhau'r fersiwn fer symud ymlaen i'r fersiwn hwy os ydynt yn dymuno. Yn yr un modd, gall cyfranogwyr sydd wedi dechrau ar y fersiwn lawn ymateb i'r chwe datganiad cyntaf yn unig.

## *Cefndir datblygu'r holiadur*

Cafodd yr holiadur 12 eitem ei dreialu gydag oddeutu 20 o oedolion hŷn â dementia cymedrol i ddifrifol, a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgymorth wythnosol yn ymwneud ag amgueddfa. Ar ôl archwilio eu hymatebion, penderfynwyd datblygu fersiwn fer 6 eitem er mwyn mesur agweddau hanfodol ar lesiant ymhlith cyfranogwyr y gallai'r raddfa hwy fod yn anodd iddynt. Roedd y cyfranogwyr dan sylw'n teimlo bod y datganiadau llesiant yn haws i'w deall ac i roi sgôr iddynt na'r geiriau llesiant unigol a dreialwyd hefyd.

Dywedodd hwyluswyr y sesiynau hyn fod cyflwyno datganiadau ar ffurf brawddegau byr yn dasg fwy diriaethol, a llai haniaethol, na gofyn i bobl ymateb i eiriau unigol a oedd fel pe baent yn peri anhawster i gyfranogwyr â dementia difrifol. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r fersiwn 12 eitem, lluniwyd y fersiwn 6 eitem gyda'r datganiadau wedi'u gosod yn nhrefn blaenoriaeth, h.y. mae'r datganiadau agosaf i frig yr holiadur yn tueddu i arwain at sgorau ymateb uwch.










## *Yr Ambarelau Mesurau Llesiant*


Mae pedair fersiwn o'r Ambarél Mesurau Llesiant ar gael ar hyn o bryd i'w defnyddio, ac maent yn cynnwys 'Ambarél Llesiant Cadarnhaol – Cyffredinol'; 'Ambarél Llesiant Negyddol – Cyffredinol'; 'Ambarél Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Hŷn' ac 'Ambarél Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Iau'. Mae pob un o'r Ambarelau Llesiant yn cynnwys hecsagon â chwe adran sydd o liw gwahanol. Cafodd amryw gynlluniau lliw eu treialu ar gyfer yr Ambarelau Mesurau Llesiant, ac arweiniodd hynny at ddefnyddio lliwiau cynnes ar gyfer yr Ambarél Llesiant Cadarnhaol, lliwiau oerach ar gyfer yr Ambarél Llesiant Negyddol, lliwiau cyfoethocach ar gyfer yr Ambarél i Oedolion Hŷn a lliwiau fflworoleuol ar gyfer yr Ambarél i Oedolion Iau. Wrth ymyl pob un o'r chwe adran, ceir ymadrodd sy'n gysylltiedig â hwyl neu emosiwn yn ymwneud â llesiant ynghyd â rhifau o un i bump. Mae gofyn i gyfranogwyr nodi'r graddau y maent yn teimlo fel yr ymadrodd sy'n gysylltiedig â llesiant, ar yr union eiliad honno, drwy roi cylch o gwmpas y rhif priodol gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd.

Mae'r Ambarél Mesurau Llesiant yn weledol iawn ac yn hawdd iawn ei ddeall oherwydd po uchaf yw'r rhif, y mwyaf dwys yw'r lliw a'r mwyaf helaeth yw'r ardal y mae'r rhif ynddi. Fel yn achos yr Holiadur Llesiant Cyffredinol gellir defnyddio'r Ambarelau Llesiant ar ôl gweithgaredd, ond yn ddelfrydol dylid cynnal dau ymarfer mesur – dylid cynnal yr ymarfer cyntaf cyn y gweithgaredd er mwyn cael mesur sylfaenol, a dylid cynnal yr ail ymarfer ar ôl y gweithgaredd er mwyn gallu cymharu'r sgorau a gweld unrhyw newidiadau yn lefelau llesiant y cyfranogwr. Gall yr ymarferion mesur 'cyn' ac 'ar ôl' gael eu cynnal dros gyfnod o amser hefyd, e.e. ar ddechrau rhaglen o weithgareddau, ar ôl sawl wythnos ac yna ar ei diwedd.

## *Cefndir datblygu'r Ambarelau*


Cafodd yr Ambarél Llesiant Cadarnhaol Saesneg gyda'r geiriau 'enthusiastic', 'excited', 'happy', 'inspired', 'active' ac 'alert' a'r Ambarél Llesiant Negyddol gyda'r geiriau 'distressed', 'irritable', 'nervous', 'scared', 'unhappy' ac 'upset' eu cadarnhau'n ddulliau dibynadwy o fesur llesiant cyffredinol gydag oddeutu 150 o gyfranogwyr a oedd yn oedolion ac yn oedolion hŷn. Ar ôl dadansoddi'r geiriau llesiant a ddarparwyd gan oddeutu 40 o oedolion iau a thros 120 o oedolion hŷn, datblygwyd Ambarelau Llesiant Cadarnhaol penodol ar gyfer grwpiau oedran (gweler yr adran 'Cefndir yr ymchwil' isod).

Roedd oedolion iau yn ymateb yn well i'r geiriau Saesneg 'friendly', 'interested', 'lively', 'motivated', 'positive' a 'talkative' ond roedd oedolion hŷn yn ffafrio'r geiriau 'absorbed', 'active', 'cheerful', 'encouraged', 'enlightened' ac 'inspired'. Cafodd yr ambarelau llesiant eu cwblhau'n llwyddiannus gan oedolion hŷn a oedd â dementia ysgafn i gymedrol, ond roedd y sawl a oedd â dementia cymedrol i ddifrifol yn ffafrio'r Holiadur Llesiant Cyffredinol (gweler uchod).




## *Y daflen ar gyfer Meddyliau a Sylwadau*


Cafodd y cwestiynau ar y ddalen hon eu datblygu yn sgil arolwg a oedd yn gofyn i'r amgueddfeydd a'r orielau ledled y DU a oedd yn cymryd rhan ynddo anfon y cwestiynau yr oeddent yn eu defnyddio'n rheolaidd i werthuso canlyniadau i'w cynulleidfaoedd. Oherwydd bod y pecyn cymorth a gâi ei ddatblygu yn yr UCL yn ddull o fesur llesiant unigol yn benodol, cafodd cwestiynau ynghylch rhinweddau'r lleoliad, y sesiwn neu'r hwylusydd eu hepgor er mwyn cynnwys cwestiynau ynghylch y cyfranogwr yn eu lle. Cafodd y cwestiynau a welir yma eu llunio ar ôl dadansoddi'r cwestiynau hynny ac ar ôl cynnal sawl ymarfer treialu gyda chynulleidfaoedd amgueddfeydd. Mae'r cwestiynau wedi'u rhoi mewn swigod meddwl yn lle blychau hirsgwar, oherwydd teimlid bod y swigod meddwl yn fwy deniadol i'r llygad.



## *Yr ambarelau wedi'u torri allan*

Roedd y cyfranogwyr yn hoffi'r Ambarelau Mesurau Llesiant wedi'u torri allan, oherwydd eu bod yn lliwgar ac yn ennyn chwilfrydedd. Roeddent yn teimlo bod yr ambarelau'n eu denu i afael ynddynt er mwyn eu harchwilio'n fanylach, ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn ei chael yn hawdd deall sut i'w defnyddio, ar ôl darllen y cyfarwyddiadau ar y cefn. Y teimlad cyffredinol ymhlith yr hwyluswyr oedd y byddai cymryd amser i baratoi'r dull gwerthuso, sef yr Ambarél Llesiant yn yr achos hwn, yn golygu y byddai pobl yn cymryd amser hefyd i'w gwblhau. Un anfantais fach sy'n codi o ddefnyddio'r ambarelau wedi'u torri allan yn hytrach na'r rhai sydd ar ddalennau A4 – ar wahân i'r ffaith bod angen eu hargraffu ar ddwy ochr i ddalen a'u torri allan – yw bod maint y testun ychydig yn llai ac nad oes lle i fwy nag un swigen sylwadau, er mwyn gallu cynnwys y cyfarwyddiadau.



# Holiadur Llesiant Cyffredinol
## Fersiwn fer 6 eitem

Rhowch gylch o gwmpas rhif ar gyfer pob datganiad er mwyn nodi i ba raddau yr ydych yn cytuno ag ef.

**1) Roeddwn yn teimlo’n hapus**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy’r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**2) Roeddwn yn teimlo fy mod yn rhan o rywbeth**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy’r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**3) Roeddwn yn teimlo’n gyfforddus**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy’r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**4) Roeddwn yn teimlo’n ddiogel**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy’r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**5) Fe wnes i fwynhau cwmni pobl eraill**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy’r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**6) Siaradais i â phobl eraill**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy’r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

# Holiadur Llesiant Cyffredinol
# Fersiwn lawn 12 eitem

Rhowch gylch o gwmpas rhif ar gyfer pob datganiad er mwyn nodi i ba raddau yr ydych yn cytuno ag ef.

**1) Roeddwn yn teimlo'n hapus**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**2) Roeddwn yn teimlo fy mod yn rhan o rywbeth**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**3) Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**4) Roeddwn yn teimlo'n ddiogel**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**5) Fe wnes i fwynhau cwmni pobl eraill**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**6) Siaradais i â phobl eraill**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

# Holiadur Llesiant Cyffredinol
# Fersiwn lawn 12 eitem (parhad)

Parhewch i roi cylch o gwmpas rhif ar gyfer pob datganiad er mwyn nodi i ba raddau yr ydych yn cytuno ag ef.

**7) Roedd gen i ddiddordeb yn y gweithgaredd**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**8) Fe wnes i fwynhau'r gweithgaredd**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**9) Cefais fy rhyfeddu**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|

**10) Cefais fy nifyrru**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|


**11) Roeddwn yn teimlo'n hyderus**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|


**12) Roeddwn yn teimlo'n iach**

| Ddim o gwbl **1** | Ddim yn aml iawn **2** | Weithiau **3** | Yn aml iawn **4** | Drwy'r amser **5** |
|---|---|---|---|---|


# Ambarél Llesiant Cadarnhaol
## Cyffredinol





Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn effro', os ydych yn teimlo'n *weddol* effro, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.




# Ambarél Llesiant Negyddol
## Cyffredinol





Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn ypsét', os ydych yn teimlo'n *weddol* ypsét, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.




# Ambarél Llesiant Cadarnhaol
## Oedolion Hŷn





Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn heini', os ydych yn teimlo'n *weddol* heini, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.



# Ambarél Llesiant Cadarnhaol
## Oedolion Iau




Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn fywiog', os ydych yn teimlo'n *weddol* fywiog, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.



# Meddyliau a Sylwadau



Beth aeth yn dda i chi?


Yn eich barn chi, beth y gwnaethoch ei gyflawni?

Beth allai fod wedi bod yn well?


Unrhyw sylwadau eraill?



Llinell dorri




Llinell dorri





Llinell dorri

**Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Cyffredinol** (y blaen, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr hon)

# Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn effro', os ydych yn teimlo'n *weddol* effro, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.





Unrhyw feddyliau neu sylwadau?

© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

**Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Cyffredinol**
(y cefn, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr arall)

# Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn effro', os ydych yn teimlo'n *weddol* effro, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.





Unrhyw feddyliau neu sylwadau?



© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013


Llinell dorri




© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

Llinell dorri

**Ambarelau Llesiant Negyddol – Cyffredinol**
(y blaen, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr hon)






Llinell dorri

© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

# Ambarél Llesiant Negyddol Cyffredinol

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn ypsét', os ydych yn teimlo'n *weddol* ypsét, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.









© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

**Ambarelau Llesiant Negyddol – Cyffredinol**
(y cefn, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr arall)

# Ambarél Llesiant Negyddol Cyffredinol

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn ypsét', os ydych yn teimlo'n *weddol* ypsét, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.







© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013


Llinell dorri →




© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

Llinell dorri

**Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Hŷn**
(y blaen, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr hon)





Llinell dorri →

© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

# Ambarél Llesiant Cadarnhaol Oedolion Hŷn

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn heini', os ydych yn teimlo'n *weddol* heini, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.





Unrhyw feddyliau neu sylwadau?

© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

**Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Hŷn**
(y cefn, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr arall)

# Ambarél Llesiant Cadarnhaol Oedolion Hŷn

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fe pob ymadrodd drwy roi cylcl amgylch rhif rhwng 1 a 5, e. 'Yn heini', os ydych yn teiml *weddol* heini, dylech roi cylc amgylch rhif 3.





Unrhyw feddyliau neu sylwadau?




© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

Llinell dorri




Llinell dorri





Llinell dorri

**Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Iau**

(y blaen, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr hon)

# Ambarél Llesiant Cadarnhaol Oedolion Iau

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn fywiog', os ydych yn teimlo'n *weddol* fywiog, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.





Unrhyw feddyliau neu sylwadau?

© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

**Ambarelau Llesiant Cadarnhaol – Oedolion Iau**
(y cefn, 2 ar bob dalen, i'w torri allan o'r ochr arall)

# Ambarél Llesiant Cadarnhaol Oedolion Iau

Mae chwe ymadrodd wedi'u hargraffu o gwmpas ymyl yr ambarél hwn. Nodwch i ba raddau yr ydych yn teimlo fel pob ymadrodd drwy roi cylch o amgylch rhif rhwng 1 a 5, e.e. 'Yn fywiog', os ydych yn teimlo'n *weddol* fywiog, dylech roi cylch o amgylch rhif 3.




Unrhyw feddyliau neu sylwadau?

© UCL – Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2013

# Beth y dylid ei wneud â'r data

Mae pob un o fesurau'r Pecyn Cymorth yn defnyddio graddfa sgorio bum pwynt, er mae gan yr Holiadur Llesiant Cyffredinol gategorïau ymateb sydd â geiriad gwahanol i'r Ambarél Mesurau Llesiant. Gellir galw'r sgorau a roddir gan y cyfranogwyr (h.y. 1, 2, 3, 4 neu 5) yn 'ddata crai'. Gellir trosi'r data crai hwn yn ddata rhifiadol ystyrlon mewn sawl ffordd bosibl sy'n dibynnu ar ddwy dechneg sylfaenol:

## *1) Dod o hyd i'r cyfartaledd*

I ddod o hyd i'r sgôr gyfartalog, adiwch bob un o'r sgorau a rhannwch y cyfanswm â nifer y sgorau. Er enghraifft: mae 10 o gyfranogwyr wedi rhoi sgorau o 1, 3, 4, 4, 4, 4, 5, 5, 5 a 5 wrth ymateb i'r datganiad *'Roeddwn yn teimlo'n hapus'* (1 = Ddim o gwbl; 2 = Ddim yn aml iawn; 3 = Weithiau; 4 = Yn aml iawn; 5 = Drwy'r amser). I ddod o hyd i'r cyfartaledd, cyfansymiwch y sgorau i roi 40, a rhannwch 40 â 10 sy'n rhoi 4. Felly, pedwar yw'r sgôr gyfartalog. Yn yr enghraifft hon, mae sgôr o 4 yn golygu bod y cyfranogwyr wedi teimlo'n hapus 'Yn aml iawn' ar gyfartaledd. Mewn termau ystadegol, 'cymedr' yw'r enw a roddir ar y sgôr gyfartalog.

A bod yn fanwl gywir, y 'canolrif' yn hytrach na'r cymedr ddylai gael ei ddefnyddio gyda data sgorio. Y canolrif yw'r sgôr ganol bob amser. I ddod o hyd i'r canolrif, rhowch y sgorau mewn trefn o'r isaf i'r uchaf a chwiliwch am y rhif sydd yn y canol. Gyda nifer anwastad o sgorau, megis naw, mae'r dasg yn eithaf syml, e.e. yn achos 1, 2, 3, 4, 4, 5, 5, 5 a 5, pedwar yw'r sgôr ganol neu'r canolrif. Gyda nifer gwastad o sgorau, megis deg, mae'r dasg ychydig yn anos oherwydd bod gennych ddwy sgôr ganol, e.e. 1, 3, 3, 4, 4, 4, 4, 5, 5 a 5. Gyda'r enghraifft hon, mae'r ddwy sgôr ganol yr un fath â'i gilydd, felly pedwar yw'r canolrif. Fodd bynnag, os yw'r ddwy sgôr ganol yn wahanol i'w gilydd, e.e. 1, 3, 3, 3, 3, 4, 4, 5, 5 a 5, gallwch ddod o hyd i'r canolrif drwy gyfrifo cyfartaledd y ddwy sgôr ganol, h.y. mae 3 adio 4 a rhannu â 2 yn rhoi 3.5 (tri a hanner).

## *2) Dod o hyd i'r amrediad*

Yr 'amrediad' yw'r sgôr uchaf namyn y sgôr isaf. Felly, os yw cyfranogwr yn rhoi sgôr o 2 cyn sesiwn a sgôr o 5 ar ôl sesiwn, yr amrediad yw 5 namyn 2 sy'n rhoi 3. Yng nghyswllt y mesurau hyn mae'n bwysig, wrth gyfrifo'r amrediad, bod y sgôr cyn y sesiwn (y sgôr gyntaf) bob amser yn cael ei thynnu o'r sgôr ar ôl y sesiwn (neu'r ail sgôr). Os yw'r ail sgôr a roddir yn llai na'r sgôr gyntaf, dylai'r amrediad gael ei nodi fel ffigur minws, e.e. os yw cyfranogwr yn rhoi sgôr o 4 cyn sesiwn ond yn rhoi sgôr o 3 ar ôl sesiwn, yr amrediad yw -1 (minws 1).

Gellir defnyddio'r amrediad i ddisgrifio unrhyw newid mewn llesiant, h.y. mae'n lleihau dwy sgôr neu ddwy sgôr gyfartalog i un sgôr sy'n disgrifio'r gwahaniaeth (e.e. cyfanswm sgorau cyfranogwr cyn ac ar ôl sesiwn, neu gyfartaledd sgorau grŵp cyn ac ar ôl sesiwn).

Caiff y cymedr a'r canolrif eu galw'n 'fesurau o ganolduedd' oherwydd eu bod yn disgrifio nodwedd ganolog y set ddata. Caiff yr amrediad ei alw'n 'fesur o wasgariad'. Fel rheol, mae darparu un mesur o ganolduedd ac un mesur o wasgariad yn ddigon i ddisgrifio set ddata gyfan, felly caiff y mesurau hyn eu galw'n 'ystadegau disgrifiadol'. Caiff ystadegau disgrifiadol eu defnyddio i lunio cymariaethau rhwng gwahanol setiau data. Mae cymariaethau penodol yn dibynnu ar beth yn union y mae'r ymchwilydd yn ceisio ei ddarganfod, h.y. y 'cwestiwn ymchwil', a gallai gynnwys y chwe opsiwn canlynol:

**i) Cymharu'r gwelliant yn llesiant un cyfranogwr o'r adeg cyn sesiwn i'r adeg ar ôl sesiwn**

Adiwch bob un o'r sgorau a roddwyd cyn y sesiwn (e.e. 18) ac adiwch bob un o'r sgorau a roddwyd ar ôl y sesiwn (e.e. 27). Os na chwblhawyd datganiad neu adran cyn neu ar ôl y sesiwn, dylech eu hepgor o'r gymhariaeth. Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng y ddwy sgôr, neu'r amrediad (e.e. 27 - 18 = 9). Naw yw swm y gwelliant. I ddarganfod pa ganran yw 9 o'r sgôr a roddwyd cyn y sesiwn, rhannwch 9 ag 18 ac yna lluoswch â 100, sy'n rhoi 50. Mae'r data hwn yn dangos gwelliant o 50% mewn llesiant o'r adeg cyn sesiwn i'r adeg ar ôl sesiwn.

**ii) Cymharu cyfartaledd y gwelliant mewn llesiant grŵp o'r adeg cyn sesiwn i'r adeg ar ôl sesiwn**

Ar gyfer pob cyfranogwr yn y grŵp, adiwch bob un o'r sgorau a roddwyd cyn y sesiwn ac adiwch bob un o'r sgorau a roddwyd ar ôl y sesiwn. Os na chwblhawyd datganiad neu adran cyn neu ar ôl y sesiwn, dylech eu hepgor o'r gymhariaeth. Adiwch bob un o sgorau'r cyfranogwyr a roddwyd cyn y sesiwn (e.e. 180) a phob un o sgorau'r cyfranogwyr a roddwyd ar ôl y sesiwn (e.e. 270). Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng y ddwy sgôr, neu'r amrediad (e.e. 270 - 180 = 90). Naw deg yw swm y gwelliant. I ddarganfod pa ganran yw 90 o'r sgôr a roddwyd cyn y sesiwn, rhannwch 90 â 180 ac yna lluoswch â 100, sy'n rhoi 50. Mae'r data hwn yn dangos gwelliant o 50% mewn llesiant o'r adeg cyn sesiwn i'r adeg ar ôl sesiwn.

**iii) Cymharu cyfartaledd y gwelliant yn llesiant un cyfranogwr dros gyfnod (e.e. ar ddiwedd y sesiwn gyntaf ac ar ddiwedd y sesiwn olaf)**

Dilynwch y broses yn i) tan y cam sy'n ymwneud â chyfrifo'r amrediad (e.e. 27 - 18 = 9). Naw yw swm y gwelliant. I ddarganfod pa ganran yw 9 o'r sgôr a roddwyd ar ddiwedd y sesiwn gyntaf, rhannwch 9 ag 18 ac yna lluoswch â 100, sy'n rhoi 50. Mae'r data hwn yn dangos gwelliant o 50% mewn llesiant o'r sesiwn gyntaf i'r sesiwn olaf.

**iv) Cymharu cyfartaledd y gwelliant mewn llesiant grŵp dros gyfnod (e.e. ar ddiwedd y sesiwn gyntaf ac ar ddiwedd y sesiwn olaf)**

Dilynwch y broses yn ii) tan y cam sy'n ymwneud â chyfrifo'r amrediad (e.e. 270 - 180 = 90). Naw deg yw swm y gwelliant. I ddarganfod pa ganran yw 90 o'r sgôr a roddwyd cyn y sesiwn, rhannwch 90 â 180 ac yna lluoswch â 100, sy'n rhoi 50. Mae'r data hwn yn dangos gwelliant o 50% mewn llesiant o'r sesiwn gyntaf i'r sesiwn olaf.

**v) Cymharu cyfartaledd y gwelliant yn llesiant un grŵp â chyfartaledd y gwelliant yn llesiant grŵp arall**


Dilynwch y broses yn ii) uchod, ar wahân ar gyfer pob grŵp, tan y cam sy'n ymwneud â chyfrifo'r amrediad ar gyfer pob grŵp (e.e. Grŵp A = 90, Grŵp B = 200). Mae rhannu'r sgôr leiaf â'r sgôr fwyaf a lluosi â 100 (e.e. 90/200 x 100 = 45) yn dangos bod y gwelliant yn llesiant Grŵp A yn cyfateb i 45% o'r gwelliant yn llesiant Grŵp B.

**vi) Cymharu'r gwelliant yn llesiant un cyfranogwr â chyfartaledd y gwelliant yn llesiant gweddill y grŵp**

Dilynwch y broses yn i) ar gyfer un cyfranogwr, tan y cam sy'n ymwneud â chyfrifo'r amrediad (e.e. 9) a dilynwch y broses yn ii) ar gyfer y grŵp, tan y cam sy'n ymwneud â chyfrifo'r amrediad (e.e. 120). Rhannwch yr amrediad ar gyfer y grŵp â nifer y cyfranogwyr (n=10) i roi cyfartaledd y gwelliant ar gyfer pob cyfranogwr (e.e. 120/10 = 12). Mae rhannu'r sgôr leiaf â'r sgôr fwyaf a lluosi â 100 (e.e. 9/12 x 100 = 75) yn dangos bod y gwelliant yn llesiant un cyfranogwr yn cyfateb i 75% o'r gwelliant yn llesiant y grŵp.

Gall ystadegau disgrifiadol gael eu hategu gan 'ystadegau casgliadol' – technegau a ddefnyddir i lunio *casgliadau* ynghylch y data a phenderfynu a allai'r canfyddiadau o nifer bach o samplau data fod yn berthnasol ar raddfa eang i'r boblogaeth gyfan. Caiff profion casgliadol eu defnyddio i benderfynu a yw canfyddiadau'n 'ystadegol bwysig'.

Mae'r profion ystadegol casgliadol sy'n addas ar gyfer llunio cymariaethau rhwng setiau o ddata sgorio yn cynnwys prawf Wilcoxon a phrawf Mann-Whitney. Caiff prawf Wilcoxon ei ddefnyddio i gymharu mesurau o'r un grŵp o gyfranogwyr (e.e. Grŵp A cyn ac ar ôl yr un sesiwn) tra caiff prawf Mann-Whitney ei ddefnyddio i gymharu mesurau o wahanol grwpiau (cymharu Grŵp A â Grŵp B ar ôl eu sesiynau cyntaf). Er na roddir sylw yma i'r profion hyn, gellir cael gafael arnynt ar-lein neu mewn gwerslyfrau ystadegol.



# Sut y datblygwyd y Pecyn Cymorth

Cafodd arolwg ei anfon i amgueddfeydd partner ledled y DU er mwyn cael gwybod sut y byddent efallai'n defnyddio mesur llesiant a pha ddulliau gwerthuso yr oeddent yn eu defnyddio'n barod. Yn dilyn yr arolwg, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ag aelodau allweddol o staff. Cafodd y gwaith o lunio amryw elfennau'r Pecyn Cymorth ei seilio ar adborth gan y partneriaid, canlyniadau gweithdai blaenorol a gwaith ymchwil, ynghyd â phrototeipiau a gafodd eu treialu a'u datblygu dros bedwar cam gan amgueddfeydd ac orielau a oedd yn cymryd rhan:

***Cam 1:*** Cafodd holiadur llesiant cyffredinol 14 eitem, a addaswyd o dri offeryn iechyd a llesiant a oedd yn bodoli eisoes, ei anfon allan gyda'r Graddfeydd Analog Gweledol (VAS) ar gyfer Iechyd a Hapusrwydd a'r fersiwn fyrrach 10 gair o'r Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol (PANAS) a oedd yn cynnwys pum emosiwn cadarnhaol a phum emosiwn negyddol, a gyflwynwyd ar ffurf y rhestr wreiddiol ar gyfer gwirio hwyl ac ar ffurf dau linlun ac iddynt bum ymyl (un i ddangos cynnydd mewn emosiwn cadarnhaol a'r llall i ddangos lleihad mewn emosiwn negyddol).

***Cam 2:*** Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, lluniwyd holiadur llesiant cyffredinol 12 eitem a oedd yn cynnwys datganiadau wedi'u haddasu ynghyd â'r fersiwn fyrrach 10 gair o'r Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol, a gyflwynwyd ar ffurf dwy ddelwedd ac iddynt chwe ymyl ac adrannau lliw, y dechreuwyd eu galw'n 'Ambarelau Llesiant'. Roedd yr ambarelau'n cynnwys y pum emosiwn cadarnhaol a'r pum emosiwn negyddol blaenorol, gyda 'hapus' neu 'anhapus' a gymerwyd o'r Raddfa Analog Weledol ar gyfer Hapusrwydd ar y chweched ymyl. Er mwyn pennu'r amryw agweddau ar hwyl ac emosiwn yr oedd grwpiau o gyfranogwyr o wahanol oedrannau a gwahanol gefndiroedd o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn eu cysylltu â llesiant, datblygwyd yr ambarelau i bobl eu llenwi eu hunain. Ar gyfer yr ambarelau hynny, roedd y cyfranogwyr yn dewis hyd at chwe gair llesiant ar ddechrau sesiwn gan eu nodi o amgylch ymylon ambarél heb eiriau, ac ar ddiwedd y sesiwn roeddent yn asesu'r graddau yr oedd y canlyniadau hynny wedi'u cyflawni.

***Cam 3:*** Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, lluniwyd holiaduron llesiant cyffredinol 12 eitem a 6 eitem. Roedd yr un byrrach yn addas ar gyfer cyfranogwyr â dementia neu bobl â rhychwant sylw byr, a chadarnhawyd Ambarelau Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol a Negyddol Cyffredinol (a ddatblygwyd o eiriau'r Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol a'r Raddfa Analog Weledol ar gyfer Hapusrwydd). Yn ogystal, ar ôl dadansoddi'r geiriau llesiant a nodwyd yn yr ambarelau i bobl eu llenwi eu hunain, lluniwyd Ambarelau Llesiant ar gyfer Oedolion Hŷn ac Oedolion Iau. Darparwyd lle i nodi meddyliau a sylwadau ar ddalennau ar wahân ac ar gefn yr ambarelau i'w torri allan. Gofynnwyd i staff amgueddfeydd, gan gynnwys curaduron, swyddogion dysgu a chydlynwyr gweithgareddau, dreialu'r Pecyn Cymorth gyda chynulleidfaoedd mewnol a chynulleidfaoedd allgymorth a rhoi adborth yn ei gylch.

**Cam 4:** Cafodd allbynnau Cam 3 eu hanfon gydag arolwg dilynol at 32 o ymatebwyr o amgueddfeydd ac orielau partner, cynghorwyr prosiectau a phobl eraill a oedd â diddordeb ynddynt, er mwyn gallu gweithredu argymhellion cyn cyhoeddi'r Pecyn Cymorth ac er mwyn gallu ei addasu ar sail yr ymatebion.

# Cefndir yr ymchwil

Dangosodd cyfres o weithdai Treftadaeth, Iechyd a Llesiant, a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac a gynhaliwyd yn Llundain, Newcastle a Manceinion, yr angen am fesurau llesiant cyffredinol sy'n canolbwyntio ar amgueddfeydd ac sy'n debyg i'r Canlyniadau Dysgu Cyffredinol a'r Canlyniadau Cymdeithasol Cyffredinol. Cyn y gweithdai, cafodd rhaglen ymchwil dair blynedd o'r enw 'Heritage in Hospitals' ('HinH'), a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ei chyflawni gan yr UCL a Rhaglen Gelfyddydau Ysbyty Athrofaol y Coleg. Defnyddiodd y prosiect raddfeydd mesur clinigol i asesu'r manteision i gleifion o roi cyfle iddynt drin a thrafod gwrthrychau amgueddfa gyda hwylusydd. Roedd y graddfeydd yn cynnwys y Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol ar gyfer llesiant seicolegol (Watson et al., 1988) a dwy Raddfa Analog Weledol ar gyfer iechyd a hapusrwydd goddrychol (Grŵp EuroQol, 1990).

Yng nghyswllt y Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol, rhoddodd y cyfranogwyr sgôr i 20 o eiriau – roedd 10 yn ymwneud ag emosiwn cadarnhaol a 10 yn ymwneud ag emosiwn negyddol – gan ddefnyddio graddfa o un i bump. Yng nghyswllt y Graddfeydd Analog Gweledol, bu'r cyfranogwyr yn asesu lefel eu hiechyd a'u hapusrwydd ar raddfa fertigol o sero i 100. Wrth gymharu'r mesuriadau a gymerwyd cyn ac ar ôl y sesiynau 'HinH', gwelwyd gwelliannau sylweddol mewn llesiant a hapusrwydd (Thomson *et al.,* 2012a; 2012b). Er i'r Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol a'r Graddfeydd Analog Gweledol gael eu dewis fel y mesurau gorau ar gyfer ymchwil 'HinH' yn dilyn adolygiad o'r graddfeydd statws iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd a ddefnyddir yn gyffredin mewn lleoliadau clinigol (Thomson *et al.,* 2011), roedd eu defnyddio y tu allan i amgylcheddau gofal iechyd yn cymryd llawer o amser. At hynny, dangosodd dadansoddiad atchweliad o ddata'r Rhestr o Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol fod sawl un o'r geiriau yn segur ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Dangosodd y dadansoddiad fod pum emosiwn cadarnhaol a phum emosiwn negyddol yn gyfrifol am oddeutu 80% o'r newidiadau i lesiant ac awgrymodd y gellid defnyddio fersiwn fyrrach 10 gair, a oedd bron mor effeithiol â'r fersiwn wreiddiol, pan oedd amser yn brin.

# Cyfeiriadau


EuroQol Group (1990). EuroQol: a new facility for the measurement of health-related quality of life. *Health Policy 16*, 199-208.

Thomson, L.J., Ander, E.E., Menon, U., Lanceley, A. a Chatterjee, H.J. (2011). Evaluating the therapeutic effects of museum object handling with hospital patients: A review and initial trial of wellbeing measures. *Journal of Applied Arts and Health, 2(1),* 37-56.

Thomson, L.J., Ander, E.E., Menon, U., Lanceley, A. a Chatterjee, H.J. (2012a). Quantitative evidence for wellbeing benefits from a heritage-in-health intervention with hospital patients. *International Journal of Art Therapy, 17(2),* 63-79.

Thomson, L.J., Ander, E.E., Lanceley, A., Menon, U. a Chatterjee, H.J. (2012b). Evidence for enhanced wellbeing in cancer patients from a non-pharmacological intervention. *Journal of Pain and Symptom Management, 44(5),* 731-740.

Watson, D., Clark, L.A., a Tellegen, A. (1988). Development and validation of brief measure of positive and negative affect: the PANAS scales. *Journal of Personality and Social Psychology, 54*, 1063-1070.

# Diolchiadau

Rydym yn hynod o ddiolchgar i staff a chyfranogwyr yn yr amgueddfeydd canlynol, a gynorthwyodd i ddatblygu Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL:

- Yr Amgueddfa Brydeinig, Llundain
- Amgueddfa Beamish, Swydd Durham
- Amgueddfa'r Sinema, Llundain
- Oriel Luniau Dulwich, Llundain
- Amgueddfa Bywyd yn Nwyrain Anglia, Essex
- Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr ac Amgueddfeydd Prifysgol Reading
- Amgueddfa Florence Nightingale, Llundain
- Amgueddfa Hackney, Llundain
- Amgueddfa Hunter yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon, Llundain
- Amgueddfa'r Infirmary a Phrifysgol Caerwrangon
- Amgueddfa Islington a'r Ganolfan Hanes Lleol, Llundain
- Prifysgol Caerlŷr ac Amgueddfeydd Caerlŷr
- Amgueddfeydd Lerpwl
- Amgueddfa ac Oriel Gelf Manceinion
- Amgueddfeydd Prifysgol Rhydychen
- Pafiliwn Brenhinol ac Amgueddfeydd Brighton
- Amgueddfa Thackray, Leeds
- Amgueddfeydd Coleg Prifysgol Llundain: Amgueddfa Swoleg Grant, Amgueddfa Archeoleg Eifftaidd Petrie a'r Amgueddfa Gelf

Rydym yn ddiolchgar i'r sawl sydd wedi bod yn cydweithio â ni, sef Jocelyn Dodd (Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau, Yr Ysgol Astudiaethau Amgueddfeydd, Prifysgol Caerlŷr) a Guy Noble (Pennaeth y Celfyddydau, Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Coleg Prifysgol Llundain) am eu cymorth a'u harweiniad. Yn ogystal, hoffem ddiolch i Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau am ariannu'r gwaith ymchwil hwn (Cyfeirnod Grant: AH/J008524/1; Prif Ymchwilydd: H. Chatterjee).

# Manylion cyswllt



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Helen J Chatterjee h.chatterjee@ucl.ac.uk
Dr Linda J Thomson linda.thomson@ucl.ac.uk

I gael fersiynau electronig y gellir eu lawrlwytho o Ambarelau Llesiant yr UCL, dilynwch y dolenni cyswllt ar y wefan: http://www.ucl.ac.uk/museums/research/touch/